**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley (cadeirydd), Margaret Bowe, Rob Parkes, Medwyn Williams, Colin L Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood-Tickle, Catherine Jones, Philip Stevens, Marilyn Jones, Alyn Ashworth a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Gaynor Morgan Rees, Colin Hughes

**Arsylwi:** Mrs Jenny Barlow.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod diwethaf o'r flwyddyn fwrdeistrefol bresennol. Croesawodd y cadeirydd darpar glerc y dref, Mrs Jenny Barlow.

**223. Materion Brys**: **Nid oedd unrhyw fater brys.**

**224. Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley - holl faterion oedd yn berthnasol a Chyngor Sir Ddinbych a materion cynllunio - personol.

**225. Derbyniwyd a chymeradwywyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Fawrth 21ain 2016.**

**226. Materion yn codi:** (1) Cofnod 207(6) Siarteri Dinbych - Cadarnhaodd y Cyng Medwyn Williams ei fod wedi mynychu a'r archifdy i'w harchwilio.
(2) Cofnodion 212 Pwll y Grawys - Gofynnodd y Cyng Rob Parkes am wybodaeth. Atebodd y cadeirydd bydd y manylion yn cael eu cyfleu yn ei adroddiad am y cyngor sir.

**227. Adroddiad y Maer.** Nodwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Amlygodd y Maer tri mater:
(1) Ymweliad dirprwyaeth o'r Congo - cyfarfod braf iawn. Dangosodd y ddirprwyaeth ddiddordeb yn y dref ac awgrymwyd y buasent yn dymuno gefeillio a Dinbych.
(2) Eisteddfod Anabledd Dysgu - llwyddiant mawr. Diolchodd y Maer i'r Cynghorwyr Gaynor Wood-Tickle a Roy Tickle am yr holl waith darparu. Diolchodd Coleg Dinbych i'r cyngor tref am y cyfraniad ariannol. (3) Ymrwymiad olaf y Maer fydd cyfarfod blynyddol Cyngor Tref Biwmares ar 3ydd o Fai.

**228. Llythyrau a Hysbysiadau:** 1. Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Digwyddiad ymrwymiad CEM Berwyn yn Farchnad Anifeiliaid Rhuthun ar Fai 4ydd. Gwahoddwyd Cynghorau Tref a Chymuned i yrru cynrychiolydd. Doedd neb a diddordeb mewn mynychu.
(2) E-bost gan Susan Muse ynglŷn â Sgwâr y Goron a thaliadau parcio yn Ninbych. Trafodwyd yr e-bost. Derbyniwyd nifer o sylwadau: (1) Bydd Grŵp Busnes Dinbych yn ysgrifennu yn ffurfiol at glerc y dref, (2) Derbyniwyd nifer o gwynion ynglŷn â'r taliadau parcio newydd, (3) Nid oedd CSDd wedi ystyried effaith ar unigolion, maent â diddordeb yn yr incwm o'r taliadau yn unig - cyngor sir sydd yn atebol, (4) Mae'r taliadau parcio yn cael effaith ar fusnesai a siopau Dinbych. Dywedodd y Cyng Bartley fod CSDd yn gorlifo gyda chwynion ynglŷn ar taliadau newydd. Codwyd y mater i fyny yn gryf yn y pwyllgor archwiliad yn ddiweddar ac maent wedi gofyn i Steve Parker fynychu cyfarfod o'r pwyllgor i roi ffigyrau ac edrych ar y mater mewn ffordd wahanol - disgwylir ymateb. Mae'r taliadau yn effeithio ar bob unigolyn a bydd ên cael ddygwyd yn y cyfarfod nesaf o'r aelodau grŵp ardal. Gofynnwyd cwestiwn - a ddylai'r cyngor tref wedi cael ei ymgynghori ynglŷn â'r taliadau. Cytunwyd i nodi'r e-bost ac i'r Cyng Bartley roddi gwybodaeth i'r cyngor tref ac os oes angen i'r cyngor tref wahodd Steve Parker a'i dim i gyfarfod a'r cyngor tref. Cytunwyd i gydnabod yr e-bost.

**229.** **Cynllunio**: Tir rhwng Hen Ffordd Rhuthun a Ffordd Rhuthun - datblygu 2.1 ha o dir ar gyfer defnydd preswyl (cais amlinellol gan gynnwys manylion mynediad). Cyfeiriwyd y cais yma i'r cyngor llawn gan y pwyllgor cynllunio yng nghyfarfod Ebrill 19eg 2016. Cafwyd cryn drafodaeth am y cais. Dywedodd y Cyng Bartley fod yna ddau gau yn ymglymedig ond dim ond un ar y funud. Y prif fater i'r cyngor tref i'w ystyried oedd mater priffyrdd. Mae mynedfa i'r ddau gae o Hen Ffordd Rhuthun. Ragwelir bydd rhif cyfanswm o 174 o breswylfeydd yn y ddau gae. Bioamrywiaeth, materion amgylchedd ac isadeiledd i gyd yn bryderus ond y briffordd oedd y mater pennaf. Mynegwyd nifer o sylwadau: (1) gorffwyll, datblygiad chwerthinllyd, (2) agweddau priffyrdd heb eu datrys, (3) tua 450 teithiau nol ac ymlaen yn ddyddiol, hyn yn cael effaith sylweddol ar gyffordd A525 a hefyd Ffordd Llandyrnog, (4) dim manylion eto am y datblygiad arall, (5) Mynediad a diogelwch oedd a'r flaenoriaeth, (6) Mae Hen Ffordd Rhuthun yn annigonol, (7) effaith ar yr isadeiledd, (8) heb weld neb yn Ninbych yn gefnogol a'r datblygiad, (9) bydd y datblygiad yn difetha ardal o harddwch yn y dref, (10) Mae ACA wedi rhoi arweiniad a'r pam y dylai gael ei wrthod. **Penderfynwyd** (12 o blaid gyda'r Cyng Bartley yn ymatal ei bleidlais gan ei fod wedi datgan diddordeb personol) **i wrthwynebu'r cais ar lawr diffyg gwybodaeth a diogelwch.**

**230.** **Cofnodion Pwyllgorau'r Cyngor.** (1) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Amgylchedd a Chyllid a gynhaliwyd ar Ebrill 18fed 2016.
(2) Nodwyd cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ebrill 19eg 2016.

**231.** **Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor:** Is bwyllgor apwyntio Bwrdeiswyr Anrhydeddus. Ystyriwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Aelodau i ystyried ac argymell enwau gyda rhesymau am yr anrhydedd i'r pwyllgor.

**232.** **Adroddiadau**: (1) <u>Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(2) <u>CCTCGC:</u> Cafwyd adroddiad gan y Cyng Roy Tickle am y seminar a'r cyfarfod chwarterol llwyddiannus. Cyflwyniad rhyfeddol gan swyddog Irish Walled Towns. Mae Irish Walled Towns yn rhoi llawer iawn o arian tuag at beth oeddynt eu cyflawni. Ychwanegodd y Cyng Margaret Bowe fod angen i Siroedd Ogledd Cymru gyd weithio. Dywedodd y Cyng Tickle fod trefniadau am y rali car blynyddol wedi cychwyn a bydd y gystadleuaeth golff yn cael ei chynnal yn Ninbych. Dywedodd clerc y dref fod yn siomedig nad oedd cynrychiolydd o GSDd wedi mynychu tra cynrychiolwyd y siroedd eraill.

(3) <u>Rheolaeth Neuadd y Dref:</u> Adroddodd y Cyng Medwyn Williams fod disgwyl am ddyddiad gosod y drws diogelwch newydd, roedd yr archeb wedi ei yrru. Roedd pob mater arall yn gweithio'n dda. Dywedodd y Cyng Bartley fod lifft y llwyfan wedi cael ei ddefnyddio llawer iawn yn ystod yr eisteddfod dysgu anabledd yn ddiweddar.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**233.** **Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. <u>Cafwyd adroddiad gan y Cyng Raymond Bartley:</u> (1) Pwll y Grawys - dim dyddiad eto, manylion pellach i ddod erbyn mis Mai. (2) Cyn safle Ysbyty Gogledd Cymru - dylid pwysleisio nad oedd CSDd eto yn berchennog y safle - mae mwy o bobl yn mynd i mewn i'r safle sydd mewn stad beryglus - bydd llawer blwyddyn cyn i gynllunio gymryd lle. (3) Tŷ ar Ffordd Rhuthun wedi ei astellu i fyny gan fod rhybudd troi allan wedi ei serfio. (4) Wayne Williams, swyddog gorfodaeth, yn dychwelyd yn ôl i weithio dau ddiwrnod yr wythnos. (5) Stryd y Dyffryn yn cael ei ail wynebu rhwng 31ain of Fai ar 7fed o Fehefin. (6) Cyn safle Kwik Save - caniatâd addasiad llai - ar y safle canol mis Mehefin. (7) Llwybr troed yn cael ei osod cyn bo hir ar y darn glaswellt ger Visage ar Ffordd Y Rhyl. (8) Mynychu cwrs sefydliad

ar dai gofal ychwanegol  Dydd Mercher 27ain gyda thri chwmni oedd â diddordeb yn safle Lôn Ganol yn rhoi cyflwyniad ar Ddydd Iau 28ain - bydd penderfyniad i'w wneud nes ymlaen ar ôl cyfnod o ymgynghoriad - mae'n debyg y cymerith tua dwy flynedd i'w weithredu. (9) Delio a nifer o broblemau unigol. Gofynnodd y Cyng Stevens os oes unrhyw newyddion am Dolwen - atebodd y Cyng Bartley fod pwyllgor archwiliad wedi argymell fod pob opsiwn yn cael ei archwilio. Dywedodd y Cyng Stevens y dylid oedi'r mater tan ar ôl etholiad y Cynulliad Cenedlaethol a chynigodd y dylai'r cyngor ysgrifennu yn awgrymu gohiriad tan fydd canlyniad yr etholiad ar gael a chais am ariannu pellach gan Lywodraeth Cymru yn cael ei wneud. - eiliwyd gan y Cyng Medwyn Williams. Cafodd y cynnig ei gario gyda 10 aelod yn pleidleisio a tri yn ymwrthod.

**234. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | United Kingdom Debt Management Office - ad-daliad PWLB<br>(Rhif siec 005867) | - | £7,716.80 |
| (2) | Catalyst Systems - storfa diogelu data oddi ar y safle (Mawrth 2016)<br>(Rhif siec 005868) | - | £22.09 |
| (3) | Ernest Martin - cloi giât gardd Dr E P Garden (Ebrill)<br>(Rhif siec 005869) | - | £60.00 |
| (4) | Clerc y Dref - ad-daliad costau stampiau post<br>(Rhif siec 005870) | - | £55.00 |
| (5) | Cyng Brian Davies - lwfans aelodau 2016/2017<br>(Rhif siec 005871) | - | £100.00 |
| (6) | Cyng Raymond Bartley - lwfans aelodau 2016/2017<br>(Rhif siec 005872) | - | £100.00 |
| (7) | Cyng Catherine Jones - lwfans aelodau 2016/2017<br>(Rhif siec 005873) | - | £100.00 |
| (8) | Cyng Rob Parkes - lwfans aelodau 2016/2017<br>(Rhif siec 005874) | - | £100.00 |
| | Rhif siec 005875 wedi ei diddymu oherwydd camgymeriad. | | |
| (9) | DVSC - aelodaeth 2016/2017<br>(Rhif siec. 005876) | - | £15.00 |
| (10) | JDH Business Services - adroddiad archwiliad mewnol<br>(Rhif siec 005877 ) | - | £540.00 |
| (11) | Sodexo Ltd - cynnal a chadw gardd goffa Dr E P (Ebrill)<br>(Rhif siec 005878) | - | £605.88 |
| (12) | Cyng Philip Stevens - lwfans aelodau 2016/2017<br>(Rhif siec 005879) | - | £100.00 |
| (13) | Cyng Colin L Hughes - lwfans aelodau 2016/2017<br>(Rhif siec 005880) | - | £100.00 |
| (14) | Cyng Margaret Bowe - lwfans aelodau 2016/2017<br>(Rhif siec 005881) | - | £100.00 |
| (15) | Zen Internet LTD - darpariaeth ADSL (Mai)<br>(Rhif siec 005882) | - | £18.37 |

Cyfanswm taliadau: £9733.14

**2**. **Cyfrifon Blynyddol 2015/2016**: (1) **Penderfynwyd cymeradwyo'r cyfrifon ariannol ar gyfer y flwyddyn 2015/2016.**

(2) Ffurflen flynyddol 2015/2016. Cyflwynodd clerc y dref, yn ôl y rheolau newydd, y ffurflen flynyddol mewn drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 oedd hefyd yn cynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol. **Penderfynwyd cymeradwyo'r ffurflen mewn modd drafft.** Arwyddwyd y ffurflen drafft gan y cadeirydd. Eglurodd clerc y dref y bydd copi o'r ffurflen ynghyd a gwybodaeth arall yn cael ei gyflwyno i'r archwilydd allanol. Yr archwilydd allanol i ystyried y ffurflen drafft ac i gyflwyno unrhyw sylwadau. Y mater wedyn i ddod yn ôl o flaen y cyngor llawn am ystyriaeth bellach.

(3) Ystyriwyd y datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/2016. Cymeradwywyd yr ateb i bob un o'r cwestiynau o fewn y datganiad. **Penderfynwyd cymeradwyo'r datganiad llywodraethu blynyddol.**

(4) Arweiniodd clerc y dref yr aelodau drwy'r datganiad amrywiad arwyddocaol a **Phenderfynwyd cymeradwyo'r datganiad.**

(5) **Adroddiad yr Archwilydd Mewnol**. Cyfeiriodd clerc y dref at yr adroddiad archwiliad mewnol roedd wedi ei amgylchu. Roedd yr archwilydd mewnol wedi cario allan yr archwiliad yn unol ag anghenion y cyngor ac ymdriniaeth cynlluniol ac wedi arwyddo rhan 4 o'r ffurflen flynyddol. Trafodwyd yr argymhelliad oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad a chytunwyd fod clerc y dref yn ffurfio modd o ddatblygu'r Adroddiad Asedau ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol.

**4.** **Materion ariannol eraill**: (1) Nodwyd derbyn a diolch £750 o Grŵp Cynefin ar gyfer ar Archif Gymunedol.

**235.** **iBeacon.** Cyfeiriodd y Cyng Medwyn Williams at y cyfarfod diwethaf pan gytunwyd fod y cyngor yn gefnogol o brosiect y Comisiwn Brenhinol. Roedd angen archebu'r offer erbyn canol mis Ebrill. Does dim cost goblygiad i'r cyngor ar hun o bryd. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnal yn y dyfodol i'r rhai sydd â diddordeb.

**236.** **Bwrdd Meiri.** Cyfeiriodd clerc y dref at y fformat a awgrymir ar gyfer ychwanegiad i'r bwrdd. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **fod y fformat a awgrymir yn cael ei dderbyn.**

**237.** **Apwyntiad cadeirydd pwyllgor Amgylchedd a Chyllid y cyngor ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2016/2017:** Cynigodd y Cyng Colin L Hughes, eiliwyd gan y Cyng Roy Tickle fod y Cyng Colin Hughes yn cael ei apwyntio fel cadeirydd. Cafodd y cynnig ei dderbyn yn unfrydol.

**238.** **Apwyntiad cadeirydd pwyllgor Cynllunio y cyngor ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2016/2017:** Cynigodd y Cyng Philip Stevens, eiliwyd gan y Cyng Medwyn Williams fod y Cyng Mark Young yn cael ei apwyntio fel cadeirydd. Cafodd y cynnig ei dderbyn yn unfrydol.

**239.** **Apwyntiad aelodau ar gyfer pwyllgor Amgylchedd a Chyllid y cyngor ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol 2016/2017:** Yn dilyn trafodaeth fer apwyntiwyd yr wyth aelod canlynol: Cyng Roy Tickle, Brian Davies, Gaynor Wood-Tickle, Colin Hughes, Colin L Hughes, Marilyn Jones, Catherine Jones a Raymond Bartley.

**240.** **Apwyntiad aelodau ar gyfer pwyllgor cynllunio y cyngor ar gyfer y flwyddyn fwrdeisterfol 2016/2017:** Yn dilyn trafodaeth fer apwyntiwyd y saith aelod canlynol: Cyng Margaret Bowe, Mark Young, Medwyn Williams, Philip Stevens, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees and Alyn Ashworth.

**241. Apwyntiad aelodau i is bwyllgorau a grwpiau gweithio'r cyngor ar gyfer y flwyddyn fwrdeisterfol 2016/2017.** Yn dilyn trafodaeth cytunwyd apwyntio'r canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Archwilio Dogfennau | - | Margaret Bowe<br>Colin L Hughes<br>Rob Parkes<br>Philip Stevens<br>Medwyn Williams<br>Gaynor Wood-Tickle |
| (2) | Bwrdeiswyr Anrhydeddus | - | Margaret Bowe<br>Gaynor Morgan Rees<br>Roy Tickle<br>Medwyn Williams<br>Gaynor Wood-Tickle |
| (3) | Rheolaeth Neuadd y Dref | - | Raymond Bartley<br>Philip Stevens<br>Medwyn Williams<br>(Reserve - Brian Davies) |
| (4) | Goleuadau Nadolig | - | Raymond Bartley<br>Margaret Bowe<br>Brian Davies<br>Catherine Jones<br>Marilyn Jones<br>Roy Tickle<br>Medwyn Williams<br>Gaynor Wood-Tickle |
| (5) | Tân Gwyllt | - | Raymond Bartley<br>Brian Davies<br>Colin Hughes<br>Colin L Hughes<br>Rob Parkes<br>Roy Tickle<br>Mark Young |
| (6) | Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf | - | Margaret Bowe<br>Gaynor Morgan Rees<br>Medwyn Williams<br>Mark Young<br>(Eilydd - Brian Davies) |

**242. Dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd cyntaf yr is bwyllgorau / grwpiau gweithio ar gyfer y flwyddyn fwrdeisterfol 2016/2017**: I'w trefnu gan glerc y dref fel bo angen.

**33. Apwyntiad aelodau ar wahanol gymdeithasau ac ati ar gyfer y flwyddyn fwrdeisterfol 2016/2017.** Yn dilyn trafodaeth cytunwyd apwyntio'r canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Elusen Ysbyty Llanrhaeadr | - | Raymond Bartley<br>(Eilydd: Rob Parkes) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2. | Theatr Twm o'r Nant | | - | Medwyn Williams<br>(Eilydd: Mark Young) |
| 3. | Pwyllgor y Chwarel | | - | Colin Hughes & Margaret Bowe |
| 4. | Pwyllgor Sioe Dinbych | | - | Rob Parkes & Catherine Jones<br>(Eilydd: Brian Davies) |
| 5 | Clwb Strôc | | - | Brian Davies & Roy Tickle<br>(Eilydd: Margaret Bowe) |
| 6. | Popeth Cymraeg (Canolfan Iaith Clwyd) | | - | Medwyn Williams<br>(Eilydd: Alyn Ashworth) |
| 7. | Llywodraethwyr: | Ysgol y Parc | - | Catherine Jones |
| | | Ysgol Frongoch | - | Alyn Ashworth |
| | | Ysgol Twm o'r Nant | - | Medwyn Williams |
| | | Ysgol y Santes Ffraid | - | Catherine Jones |
| | | Ysgol Pendref | - | Roy Tickle |
| 8. | Hen ac Anabl Dinbych | | - | Margaret Bowe |
| 9. | Cymdeithas Gefeillio | | - | Roy Tickle & Gaynor Wood Tickle & Clerc y Dref<br>(Y Maer yn mynychu fel Llywydd y Gymdeithas) |
| 10. | CCT&ChMGC | | - | Raymond Bartley & Margaret Bowe,<br>(Eilydd: Roy Tickle) |
| 11. | CCTCGC | | - | Maer, Raymond Bartley, Roy Tickle, Gaynor Wood-Tickle & Clerc y Dref.<br>(Eilydd Colin Hughes) |
| 12 | Prosiect Ieuenctid Dinbych | | - | Colin L Hughes & Mark Young<br>(Eilydd: Rob Parkes) |
| 13. | Prosiect Capel Seion | | - | Colin L Hughes & Colin Hughes |
| 14. | Elusen John Evans | | - | Maer & Marilyn Jones |
| 15. | Elusen Gŵyl Sant Thomas | | - | Maer & Marilyn Jones |
| 16. | Eirianfa | | - | Brian Davies & Margaret Bowe |
| 17. | Grŵp Busnes Dinbych | | - | Maer, Gaynor Wood-Tickle, Roy Tickle.<br>(Eilydd: Rob Parkes) |
| 18. | Cist Gymunedol Clwyd | | - | Raymond Bartley<br>(Eilydd: Margaret Bowe) |
| 19. | Pwyllgor Gŵyl Dinbych | | - | Brian Davies & Gaynor Wood-Tickle |
| 20. | Grŵp Diogelwch Dinbych | | - | Rob Parkes & Margaret Bowe |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | (Eilydd: Raymond Bartley) |
| 21. | Cymdeithas Parc Isaf | - | Raymond Bartley & Roy Tickle |
| 22. | Ramps & Rails | - | Rob Parkes & Alyn Ashworth |
| 23. | Cymdeithas Hanes Lleol Dinbych | - | Gaynor Morgan Rees<br>(Eilydd Margaret Bowe) |
| 24. | Masnach Deg | - | Margaret Bowe, Colin L Hughes & Marilyn Jones |
| 25. | Drysau'n Agored | - | Margaret Bowe, Catherine Jones & Medwyn Williams |
| 26. | Partneriaeth Gymunedol Dinbych Uchaf | - | Margaret Bowe |
| 27. | Prosiect Banc Bwyd Dinbych | - | Margaret Bowe & Rob Parkes |
| 28. | Grŵp Twristiaeth | - | Rob Parkes & Margaret Bowe |
| 29. | Trefi Taclus | - | Rob Parkes & Mark Young |
| 30. | Bwrdd Amgueddfa Dinbych | - | Brian Davies<br>(eilydd Mark Young) |
| 31. | Hwb Dinbych | - | Mark Young |
| 32. | Carnifal Dinbych | - | Roy Tickle |
| 33. | Dinbych mewn blodeuyn | - | Raymond Bartley, Roy Tickle, Gaynor Wood-Tickle |
| 34. | CCTC - Rail car isgrwp | - | Colin L Hughes & Roy Tickle |

Yn y man yma symudodd y cyfarfod i Ran 2

Ar ôl cwblhau'r busnes o dan Ran 2 terfynwyd y cyfarfod gan y cadeirydd am 8.53 o'r gloch..

Arwyddwyd:......................................................... (cadeirydd)

Dyddiad:.........................

## Rhan 2

**244.** **Ymddeoliad Clerc y Dref.** Atgoffwyd y cyfarfod o beth a ddigwyddodd o dan Ran 2 yng nghyfarfod diwethaf y cyngor ar 21ain o Fawrth.
Ar yr achlysur yma gofynnodd y cadeirydd i glerc y dref aros yn y siambr. Ar ddymuniad y cadeirydd rhoddodd clerc y dref fanylion ar sut oedd taliadau arian rhodd yn gweithio. Aeth clerc y dref ymlaen i awgrymu y dylai'r mater gael ei drafod yn y ffordd ganlynol: Yn gyntaf dylid penderfynu os oedd unrhyw daliad honorariwm/bonws/ex gracia yn haeddiannol ac yn ail, os ydi'r ateb yn gadarnhaol, i'r cyfarfod drafod y taliad ac yn drydydd cymryd pleidlais (cofnodedig os gofynnir).
Cynigodd y Cyng Mark Young, eiliwyd gan y Cyng Roy Tickle fod penderfyniad y cyfarfod diwethaf yn cael ei gadarnhau.
Pwyntiodd y Cyng Medwyn Williams nad oedd y penderfyniad wedi cael ei gofnodi.
Dywedodd y Cyng Margaret Bowe y cytunwyd ar honorariwm o £3,490.
Cyn i bleidlais gael ei chymryd gofynnodd Cyng Rob Parkes am i'r bleidlais gael ei chofnodi.
Dilynodd y bleidlais fel y canlynol:
Cyng Margaret Bowe, Marilyn Jones, Colin L Hughes, Philip Stevens, Mark Young, Alyn Ashworth, Gaynor Wood Tickle, Brian Davies, Medwyn Williams, Roy Tickle a Raymond Bartley o blaid. Y Cyng Rob Parkes a Catherine Jones yn atal eu pleidlais
Derbyniwyd y cynnig a bydd taliad o £3,490 yn cael ei dalu.